# Adroddiad Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Pwyllgor cyn Craffu Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio 2022-23

## Polisi Dyrannu Tai Cymdeithasol Dros Dro Brys

sirgar.llyw.cymru

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

**Cynnwys**

---


| | |
|---|---|
| **Rhagair gan y Cadeirydd** | **3** |
| **Cefndir** | **4** |
| **Prif Gwmpas a Nodau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen** | **4** |
| **Aelodaeth y Grŵp Gorchwyl a Gorffen** | **5** |
| **Presenoldeb mewn Cyfarfodydd** | **6** |
| **Trosolwg o'r Wybodaeth a Dderbyniwyd gan y Grŵp** | **6** |
| **Gwybodaeth Gefndir am yr Achos dros Newid** | **8** |
| **Cynigion ar gyfer Datblygu Polisi Dyrannu Brys** | **12** |
| **Polisi Dyrannu Tai Cymdeithasol Brys** | **15** |
| **Casgliad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen** | **18** |
| **Argymhellion i'w Hystyried gan y Cabinet** | **18** |
| **Atodiadau:**<br>**Polisi Dyrannu Brys Drafft** | **20** |

**Rhagair gan y Cadeirydd**

Pleser yw cyflwyno adroddiad Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Pwyllgor Craffu Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio a sefydlwyd gan y Pwyllgor ym mis Medi 2022 i ddatblygu Polisi Dyrannu Tai Cymdeithasol Brys ar gyfer Sir Gaerfyrddin i fynd i'r afael â'r sefyllfa ddigynsail sy'n wynebu'r Cyngor, a'i Bartneriaid Tai Cymdeithasol, lle'r oedd y galw cynyddol am dai cymdeithasol yn uwch na lefel y cyflenwad

Roedd aelodau'r Pwyllgor, bryd hynny, yn teimlo bod datblygu'r polisi yn bwysig i fynd i'r afael â'r galw digynsail a chyflwyno adroddiad ar opsiynau polisi i'r Cabinet a'r Cyngor i'w hystyried, a'u mabwysiadu, fel Polisi dros dro Brys hyd nes y cynhaliwyd adolygiad llawn o'r Polisi Dyrannu Cyffredin, a hyd nes ei fabwysiadu gan y Cyngor

Fel rhan o'r adolygiad, gwnaethom archwilio'r dyletswyddau deddfwriaethol cyfredol a osodwyd ar awdurdodau tai lleol, effaith deddfwriaeth sydd ar y gweill ar y sector rhentu preifat, gweithredu'r gofrestr Dewis Tai a'r 'broses gynnig' trwy 'Canfod Cartref' ar gyfer ymgeiswyr sy'n ceisio Tai Cymdeithasol ynghyd â gweithredu'r Polisi Dyrannu Tai Cymdeithasol cyfredol ac a oedd yn addas i'r diben yn yr hinsawdd bresennol.

Rwy'n gobeithio y bydd yr argymhellion yr ydym wedi'u gwneud yn sicrhau gwelliannau ar gyfer dyrannu Tai cymdeithasol yn Sir Gaerfyrddin.

Rwy'n ddiolchgar iawn i'm cyd-aelodau yn y grŵp hwn am eu cyfraniad a'u hymroddiad yn ystod yr adolygiad hwn.

Hoffwn hefyd ddiolch i'r swyddogion sydd wedi rhoi cyngor a chymorth arbenigol drwy gydol y broses.

**Y Cynghorydd Deryk Cundy**

**Cadeirydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen**

**Cefndir**

Yn ei gyfarfod ar 29 Medi 2022, cytunodd y Pwyllgor Craffu Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio i sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen cyn Craffu i ddatblygu Polisi Dyrannu Tai Cymdeithasol Dros Dro Brys ar gyfer Sir Gaerfyrddin i fynd i'r afael â'r sefyllfa na welwyd ei thebyg o'r blaen y mae'r Cyngor yn ei hwynebu, (fel y mae'r holl Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a'r Awdurdodau Lleol yng Nghymru), lle'r oedd y galw cynyddol am dai cymdeithasol yn uwch na lefel y cyflenwad. Roedd y sefyllfa honno wedi gwaethygu'n sylweddol dros yr wythnosau a'r misoedd diwethaf oherwydd nifer o ffactorau allanol.

Wrth ddewis y pwnc hwn i'w adolygu, nododd y Pwyllgor:

- Prinder sylweddol o dai fforddiadwy ar draws y Sir yn y Sector Tai Cymdeithasol a'r Sector Rhent Preifat.
- Fod gan yr Awdurdod ddyletswydd i gartrefu pobl ddigartref neu bobl mewn perygl o fod yn ddigartref
- Gyda mwy a mwy o ymgeiswyr ar gyfer tai cymdeithasol mewn angen difrifol, nid oedd y polisi gosod presennol yn addas i'r diben ac roedd angen i'r Cyngor greu cofrestr dai decach a mwy tryloyw dros dro oedd yn fwy addas ar gyfer y sefyllfa bresennol yn y sir.

**Prif Gwmpas a Nodau'r Grŵp**

Cytunwyd ar brif Gwmpas a Nodau'r grŵp fel a ganlyn:

- Cytuno ar Bolisi Dyrannu Tai Cymdeithasol Dros Dro symlach yn seiliedig ar ddata a thystiolaeth
- Creu proses dryloyw ar gyfer dyrannu cartrefi yn ystod cyfnod yr argyfwng presennol
- Alinio datblygiad polisi â'r adolygiad presennol o'r Polisi Dyrannu Tai Cymdeithasol a datblygu'r Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym yn unol â Pholisi Llywodraeth Cymru i sicrhau bod digartrefedd yn anghyffredin, yn ddigwyddiad tymor byr a sicrhau nad yw'n digwydd eto
- Datblygu Polisi Dyrannu Tai Dros Dro Brys a gwneud argymhellion i'r Cabinet a'r Cyngor i'w gymeradwyo

**Aelodaeth y Grŵp Gorchwyl a Gorffen**

Hefyd yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Medi, cytunodd y Pwyllgor Craffu Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio y bydd aelodaeth y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cynnwys 6 Aelod Etholedig a benodwyd i adlewyrchu cydbwysedd gwleidyddol y Cyngor cyfan, i'r graddau mwyaf posibl:-







Y Cynghorydd Deryk Cundy (Cadeirydd) Y Cynghorydd Betsan Jones (Is-gadeirydd) Y Cynghorydd Ken Howells

Llafur Plaid Cymru Plaid Cymru





Y Cynghorydd Martyn Palfreman Y Cynghorydd Russell Sparks

Llafur Plaid Cymru

*NODER Nid oedd y Cynghorydd Hugh Shepardson wedi gallu cymryd ei le ar y Grŵp Gorchwyl a Gorffen a oedd wedyn yn cynnwys y pum aelod arall.

**Presenoldeb mewn Cyfarfodydd**

Dangosir presenoldeb aelodaeth y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn y tabl isod. Cynhaliwyd cyfanswm o 5 cyfarfod rhwng Hydref 2022 ac Ionawr 2023.

| Aelod y Pwyllgor Craffu | Cyfarfodydd a fynychwyd | % |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Deryk Cundy (Cadeirydd) | 5 | 100 |
| Y Cynghorydd Betsan Jones (Is-gadeirydd) | 5 | 100 |
| Y Cynghorydd Ken Howell | 5 | 100 |
| Y Cynghorydd Martyn Palfreman | 5 | 100 |
| Y Cynghorydd Russel Sparks | 5 | 100 |

**Trosolwg o'r wybodaeth a dderbyniwyd gan y grŵp**

Derbyniodd y grŵp gryn dipyn o wybodaeth ar ffurf adroddiadau ysgrifenedig a llafar, gan gynnwys manylion am y cyflenwad / galw am dai presennol, digartrefedd, deddfwriaeth y Llywodraeth, y Gofrestr Dewis Tai a'r broses gynnig ar gyfer cartrefi drwy 'Canfod Cartref'.

Rhestrir isod rai adroddiadau y mae'r grŵp wedi rhoi sylw iddynt ym mhob un o'i gyfarfodydd-

<u>Y Cyfarfod Cyntaf - 11 Hydref 2022 - Cyflwyniad ar yr 'Achos dros Newid – Polisi Dyrannu Tai Cymdeithasol'</u>

<u>Cynnwys</u> **–**

- Digartrefedd - rhwymedigaethau a dyletswyddau cyfreithiol a osodir ar yr Awdurdod Tai Lleol ynghyd ag ystadegau ar lefelau digartrefedd a'r sefyllfa bresennol
- Cofrestr Dewis Tai - Gweithredu'r rhestr a'r broses gynnig
- Astudiaethau achos digartrefedd
- Roedd y pwysau eraill yn cynnwys:
  - Effaith Covid a deddfwriaeth y Llywodraeth i amddiffyn tenantiaid,
  - cyflwyno, ym mis Rhagfyr 2022, Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 a'i goblygiadau posibl i'r sector rhentu preifat
  - effaith gwrthdaro'r Wcráin a Chynllun Gwasgaru'r Swyddfa Gartref sydd ar ddod i wasgaru ymfudwyr ledled y Deyrnas Unedig
- Datblygu'r Gwasanaeth ac ad-drefnu Hwb Tai i flaenoriaethu atal

Yr Ail Gyfarfod - 24 Hydref 2022 - Cynigion ar gyfer datblygu Polisi Dyrannu Dros dro Brys

Cynnwys: - 9 o Gynigion Polisi ac Argymhellion ynghyd ag unrhyw risgiau cysylltiedig a mesurau lliniaru

Y Trydydd Cyfarfod – 21 Tachwedd 2022 – Polisi Dyrannu Tai Cymdeithasol Brys Drafft

Cynnwys: Polisi Dyrannu Tai Cymdeithasol Dros Dro Brys Drafft i'w drafod

Y Pedwerydd Cyfarfod - 6 Rhagfyr 2022 –

Cynnwys – Polisi Dyrannu Tai Cymdeithasol Dros Dro Brys Drafft sy'n ymgorffori diwygiadau a wnaed gan y Grŵp yn ei gyfarfod ar 21 Tachwedd 2022

Y Pumed Cyfarfod - 10 Ionawr 2023

Cynnwys – Polisi Dyrannu Tai Cymdeithasol Brys Drafft Terfynol ynghyd ag adroddiad y Grŵp ar ei ganfyddiadau a'i argymhellion i'w hystyried drwy'r broses ddemocrataidd drwy'r Pwyllgor Craffu Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio, y Cabinet ac, yn y pen draw, y Cyngor ar gyfer mabwysiadu fel Polisi'r Cyngor

| 1. | **Cyfarfod Cyntaf 10 Hydref 2022 - Gwybodaeth gefndir am 'Achos dros Newid – Polisi Dyrannu Tai Cymdeithasol'** |
|---|---|

Derbyniodd y Grŵp, fel rhan o'i ystyriaeth o'r angen i gyflwyno Polisi Dyrannu Tai Cymdeithasol Brys, gyflwyniad power-point yn manylu ar gefndir Polisi Dyrannu Brys a'r angen am ei gyflwyno wedi'i rannu yn y5 Adran benodol ganlynol:

- Digartrefedd
- Y Gofrestr Tai
- Astudiaethau Achos
- Pwysau Arall
- Datblygu'r Gwasanaeth

Amlinellir prif elfennau'r adrannau hyn isod.

**Y Dyletswyddau Digartrefedd a Deddfwriaeth**

1. Mae'r Pandemig Covid 19 wedi arwain at nifer o newidiadau i ddyletswyddau digartrefedd Awdurdodau Tai Lleol Cymru
2. Ym mis Ebrill 2020, cyhoeddwyd Canllawiau ar ehangu'r diffiniad o fregusrwydd gan osod dyletswydd ar awdurdodau tai o'r enw 'Pawb i Mewn' i roi to i bawb mewn angen.
3. Ym mis Tachwedd 2021, lansiodd Llywodraeth Cymru ei Chynllun Gweithredu Lefel Uchel i roi diwedd ar ddigartrefedd o'r enw '*No Going Back*', gan ddiwygio canllawiau blaenorol
4. Ym mis Mai 2022, dechreuodd ymgynghoriad ar Fesurau Digartrefedd Dros Dro Llywodraeth Cymru a chyllid ychwanegol ar gyfer atal digartrefedd o'r enw 'Neb Heb Help'
5. Hydref 2022 – Daeth Is-ddeddfwriaeth i rym – Rheoliadau Digartrefedd (Angen a Bwriad Blaenoriaeth) (Cymru) 2022.
6. Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 Adrannau 62, 66, 68, 73 a 75 yn gosod y dyletswyddau canlynol ar Awdurdodau Tai Lleol:

    Adran 62 – Dyletswydd i Asesu – gall unrhyw un gyflwyno i'r Awdurdod Lleol a allai fod yn ddigartref neu sydd ar fin cael ei wneud yn ddigartref ac mae angen i ni ei asesu

    Adran 66 – Dyletswydd i helpu i Atal Digartrefedd. Os oes bygythiad o ddigartrefedd e.e. rhybudd gan landlord, bydd dyletswydd ar awdurdodau lleol i helpu i atal digartrefedd o dan yr adran hon.

    Adran 68 - Dyletswydd i sicrhau llety Dros Dro – Os bydd person yn mynd yn ddigartref, a'i fod yn colli'r to uwch ei ben, mae dyletswydd arnom i ddarparu llety dros dro – er enghraifft os oedd landlord wedi cyflwyno Hysbysiad Adran 21 a beilïaid wrth y drws

Adran 73 - Dyletswydd i helpu i sicrhau llety - Mae'n ddyletswydd arnom i ddod o hyd i lety diogel. Mae'r ddyletswydd honno'n para am 2 fis ac yna bydd y cyfrifoldeb yn disgyn ar Awdurdodau Tai o dan Adran 75 i ddod o hyd i lety diogel

Adran 75 – Dyletswydd i sicrhau llety - Os yw pobl wedi cael eu cartrefu mewn llety dros dro am 2 fis, mae gan yr Awdurdod Tai Lleol ddyletswydd i ddarparu llety diogel

**Y Gofrestr Tai a'r 'Broses Gynnig'**

7. Nododd y Grŵp y gall unrhyw un wneud cais i fod ar y Gofrestr Tai, gan gynnwys pobl sy'n dod o dan Adran 62 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Fodd bynnag, er bod yn rhaid i'r Cyngor dderbyn ceisiadau yn ôl y gyfraith, does dim rhaid iddo eu cofrestru.
8. Mae'n rhaid i bob ymgeisydd sy'n gwneud cais am gael ei roi ar y Gofrestr ddarparu gwybodaeth briodol i alluogi ei roi ym Mand priodol y Cyngor o dan Bolisi Dyrannu Cyffredin Sir Gaerfyrddin h.y.:

   Band A – Digartref, gan gynnwys y rhai sy'n dod o dan Adran 75

   Band B – Anghenion tai lefel isel – e.e., gorlenwi o ran un ystafell wely – pobl sy'n dod o fewn Adrannau 66, 68 a 73

   Cofrestredig yn unig – Dim angen tai clir gydag ymgeiswyr yn gofyn am fod yn Denant Cyngor

9. Pan fydd ymgeisydd wedi'i osod ar y Gofrestr, gall gynnig am eiddo sydd ar gael yn wythnosol gyda'r broses fel a ganlyn:

Nifer yr Eiddo sy'n cael eu Hysbysebu'n Wythnosol → Ymgeiswyr Cofrestredig yn gwirio'r eiddo a hysbysebir yn wythnosol rhwng dydd Iau a dydd Llun → Ymgeisydd yn mynegi diddordeb (cynnig) am eiddo y mae'n gymwys ar ei gyfer →

Llunnir rhestr fer o ymgeiswyr sydd wedi gwneud cais am eiddo yn unol â meini prawf y rhestr fer → Meini Prawf ar gyfer Llunio Rhestr Fer → Cynigir yr eiddo i'r ymgeisydd sydd ar ben y rhestr

Band A.B – Wedi cofrestru yn unig

Cysylltiad lleol

Cysylltiad Cymunedol

Amser mae wedi'i gofrestru yn y Band

10. Ni ystyrir bod y broses gynnig bresennol yn addas i'r diben gan nad yw rhai pobl yn cynnig am eiddo, neu maent yn cynnig am eiddo sydd ar gael mewn stryd/ardal benodol yn unig.
11. Ym mis Medi 2022, roedd mwy na 4,500 o geisiadau am Dai Cymdeithasol ar y Gofrestr Tai. O blith y rheiny roedd:
    - 2,574 (60%) wedi'u cofrestru'n unig, ac roedd 1,078 (42%) o'r rhai nad ydynt yn cynnig am eiddo sy'n cyfateb i 25% o'r Gofrestr
    - 1,226 (28%) ym Mand B, ac roedd 336 (28%) o'r rhai nad ydynt yn cynnig am eiddo sy'n cyfateb i 8% o'r Gofrestr
    - 537 (14%) ym Mand A, ac roedd 89 (17%) o'r rhai nad ydynt yn cynnig am eiddo sy'n cyfateb i 2% o'r Gofrestr
    - Yn gyffredinol, nid yw 1,503 o bobl (35%) ar y Gofrestr yn cynnig am eiddo

| Band | Cyfan swm Nifer yn Band | % o'r Gofrestr gyfan | Nifer sy'n gwneud cynnig | Nifer nad ydynt yn gwneud cynnig | % ar y gofrestr nad yw'n gwneud cynnig |
|---|---|---|---|---|---|
| **Band A** | 537 | 12% | 448 | 89 | 2% |
| **Band B** | 1,226 | 28% | 890 | 336 | 8% |
| **Wedi cofrestru yn unig** | 2,574 | 60% | 1,496 | 1,078 | 25% |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | 4,337 | 100% | 2,834 | 1,503 | 35% |

12. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn adolygu'r Gofrestr yn flynyddol.

**Pwysau Arall**

1.1 Mae newidiadau diweddar i gyfnod Hysbysiad rhybudd Adran 21 sy'n ymwneud â'r cyfnod amser y gallai landlordiaid roi i denantiaid i derfynu eu tenantiaeth wedi newid. I ddechrau, cafodd ei ymestyn o fis Awst 2020 o 2 fis i 6 mis, cyn dychwelyd i 2 fis ym mis Mawrth 2022

1.2 Ym mis Rhagfyr 2022, bydd Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) yn dod i rym gan ymestyn cyfnod Hysbysiad A21 i 6 mis ar gyfer pob contract newydd.

1.3 Mae Landlordiaid Sector Preifat yn gadael y sector am nifer o resymau gan gynnwys goblygiadau'r Ddeddf newydd ar Hysbysiadau Adran 21 a phwysau eraill ar gostau byw;

1.4 Ers mis Ebrill 2022, mae'r Cyngor wedi colli 12% o'r stoc Gosod Syml y mae'n ei reoli ar ran landlordiaid preifat.

1.5 Er bod y Cyngor yn mynd ati i geisio prynu'r stoc yn ôl er mwyn galluogi tenantiaid i aros yn eu tenantiaethau, nid yw hynny'n gynaliadwy yn y tymor hir

1.6 Ar hyn o bryd mae 102 o deuluoedd o Wcráin yn byw yn Sir Gaerfyrddin. Mae 73 o’r rheini’n aros gyda lletywyr/noddwyr a’r 29 sy’n weddill mewn llety arall, gan gynnwys gwestai a llety dros dro

1.7 Mae cynllun y DU ar gyfer lletya teuluoedd o Wcráin yn berthnasol am gyfnod o 6 mis. Disgwylir i hyn ddod i ben ym mis Rhagfyr 2022 ac mae posibilrwydd y gallai rhai teuluoedd ddatgan i'r Cyngor eu bod yn ddigartref wedi'r cyfnod hwn.

1.8 Mae disgwyl i Gynllun Gwasgaru'r Swyddfa Gartref arwain at wasgaru tua 141-185 o bobl i Sir Gaerfyrddin, gyda 75% ohonynt yn ddynion sengl a thrwy hynny gynyddu'r galw am gartrefi yn y Sir.

**Datblygiadau Gwasanaeth**

1.9 I helpu gyda'r pwysau hyn, mae'r Adran wedi ailgyflunio'r HWB Tai, wedi cynnig cymhellion i landlordiaid preifat ohirio troi allan a datblygu'r Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym i drawsnewid y gwasanaeth digartrefedd.

1.10 Yn ddiweddar, rhoddwyd awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel baru unigolion yn uniongyrchol â'r eiddo sydd ar gael a thrwy hynny wella'r amser i ddyrannu eiddo. Hyd yn hyn, mae 20 o bobl wedi cael eu paru'n uniongyrchol.

## 2. Yr Ail Gyfarfod - 24 Hydref 2022 - Cynigion ar gyfer Datblygu Polisi Dyrannu Dros Dro Brys

2.1 Mae'r Grŵp wedi nodi, a sefydlu, yr angen i fabwysiadu Polisi Dyrannu Dros Dro Brys er mwyn galluogi'r Cyngor i gyflawni ei Rwymedigaethau Cyfreithiol fel Landlord Cymdeithasol o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014, ystyried dogfen gynigion yn archwilio gwahanol opsiynau a chynigion i fodloni'r rhwymedigaeth honno.

2.2 Fel rhan o'r archwiliad hwnnw, ystyriodd y Grŵp y 9 cynnig a ganlyn, gan asesu unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â'u cyflwyno, sut i liniaru unrhyw risg, asesu effaith pob cynnig a pha fesurau fyddai'n cael eu cyflwyno i fesur effaith y newidiadau hynny.

**Cynnig 1:**

**Band Wedi Cofrestru yn unig wedi'i atal i ymgeiswyr newydd** - ni fydd pobl sy'n cael eu hasesu fel rhai nad oes angen tai arnynt yn gallu ymuno â'r gofrestr tai o dan y polisi dyrannu tai dros dro brys.

**Cynnig 2:**

**Bydd cartrefi'n cael eu rhoi i bobl â'r angen mwyaf gyntaf.** Bydd eiddo ond yn cael ei hysbysebu ar Canfod Cartref os na ellir ei baru .

**Cynnig 3:**

**Bydd ymgeiswyr yn cael cynnig Cynnig Rhesymol neu Gynnig Addas.** Bydd ymgeiswyr y mae gennym Ddyletswydd Tai iddynt yn cael cynnig rhesymol; bydd pob ymgeisydd arall yn cael 2 gynnig Addas

**Cynnig 4:**

**Dyraniad Uniongyrchol - Cymhwysedd**

Cafodd y Dyraniad Uniongyrchol ei lunio yn unol ag Adran 167(2) Deddf Tai 1996, sy'n caniatáu i awdurdodau lleol roi blaenoriaeth ychwanegol i ymgeiswyr a chanddynt anghenion tai brys.

**In order of Additional and Reasonable Preference the following applicants will be considered in greatest need and eligible for a direct offer:**

- People who have been assessed as having an exceptional housing need and would qualify for an Emergency Direct Offer of accommodation;
- People who have been assessed under Part 2 of the Housing (Wales) Act 2014 and a section 75 duty has been accepted;
- People who are homeless or threatened with homelessness and who have been assessed under Part 2 and who are owed any duty by the authority under section 73 or 66 of the Housing (Wales) Act 2014;
- People in the existing urgent housing need 'Band A'; and
- People who have a specialist need for adapted accommodation and the availability of suitable accommodation is limited and are in 'Band A'.

**Dim ond ymgeiswyr:**

- Gydag amgylchiadau eithriadol, ffafriaeth ychwanegol a rhesymol (uchod); a
- Cysylltiad Lleol fydd yn cael ei ystyried ar gyfer cynnig uniongyrchol ar gyfer Tai Cymdeithasol pan fydd eiddo ar gael i'w osod, naill ai gan Gyngor Sir Caerfyrddin neu bartner Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.
- Pan na allwn gysylltu cartref sydd ar gael gyda phobl a chanddynt yr angen mwyaf, byddwn yn parhau i hysbysebu'r eiddo hynny ar Canfod Cartref – gall ymgeiswyr ar y gofrestr tai barhau i gynnig am y cartrefi hyn.

Wrth ddewis ymgeiswyr i'w hystyried, byddwn yn ystyried y maint a'r math o eiddo ac a wnaed addasiadau ar gyfer pobl anabl yn yr eiddo. Bydd pobl sydd wedi cael eu hasesu fel rhai sydd ag angen eithriadol o ran tai yn cael eu hystyried yn gyntaf. Byddwn wedyn yn blaenoriaethu ceisiadau yn unol â'r ffactorau blaenoriaethu isod:

| Prioritisation Factors | Criteria | Process |
|---|---|---|
| First | Community Connection Criteria | We will sort by Community Connection. People with a community connection will be considered in the first instance. |
| Second | Time Registered in Duty or the priority band | We will sort in Duty order (1st S.75, 2nd S.73, 3rd S.66) or 4th the time spent in the priority band. Offers will be made in Duty and date order. |
| Third | Support Needs | Only applicants who can be supported into settled accommodation will be considered. (See Appendix 2 for full details of support needs) |
| Fourth | Community Cohesion | To support a sustainable tenancy, we will consider the impact of any eligible applicant on the wider community before making the any nomination. |

**Cynnig 5:**

Ni fydd ymgeiswyr sy'n gallu diwallu eu hanghenion tai yn ariannol yn gallu ymuno â'r gofrestr tai.

**Cynnig 6:**

Bydd ymgeiswyr sy'n methu ailgofrestru, mewngofnodi a chyrchu eu cyfrifon neu gynnig am eiddo sy'n diwallu eu hanghenion yn cael eu tynnu oddi ar y gofrestr dai.

**Cynnig 7:**

I Ymgeiswyr Presennol: Band A yn aros; adrannau 73 a 66 yn symud i Fand A; Band B yn aros; Band wedi Cofrestru yn Unig yn parhau ac wedi'i rewi i geisiadau newydd (ac eithrio ymgeiswyr 55+, gofal ychwanegol a pherchnogaeth cartref cost isel).

**Cynnig 8:**

Mae’r Polisi Dyrannu Tai Cymdeithasol presennol yn cael ei atal yn ystod y cyfnod yr ydym yn gweithredu Polisi Dyrannu Dros Dro Brys.

**Cynnig 9:**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y bydd ei ddull 'Neb Heb Help' yn parhau ar gyfer 2022-23. Categori Angen Blaenoriaeth Ychwanegol oherwydd Is-ddeddfwriaeth newydd.

Bydd **ymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd** yn cael ei chynnal i feithrin cydnabyddiaeth gyhoeddus o'r broblem drwy gyfathrebu wedi'i dargedu a thynnu sylw at yr angen am ddyraniadau uniongyrchol.

2.3 Roedd y Grŵp yn cydnabod y newid sylweddol y byddai'r cynigion yn ei gael ar y system Canfod Cartref bresennol lle gallai pobl wneud cais am dai ac y gellid ystyried bod y cynnig newydd yn cyfyngu ar ddewis tenantiaid.

2.4 I fynd i'r afael â hyn, cymeradwyodd y Grŵp yr angen am ddull cyfathrebu effeithiol i ddangos y dylid ystyried bod y cynigion yn gam cadarnhaol tuag at ddarparu cartrefi i'r rhai mewn angen.

2.5 Gyda 4,500 o bobl ar y gofrestr a dim ond 800 o gartrefi ar gael, ystyriwyd bod cyflwyno Polisi Dyrannu Brys ar yr adeg hon yn angenrheidiol i ddarparu cartrefi i'r rhai mewn angen

2.6 Nododd y Grŵp y byddai'r polisi dyrannu Dros Dro, pe bai'n cael ei fabwysiadu, yn cael ei weithredu yn gynnar yn 2023 am oddeutu blwyddyn tra bod adolygiad cynhwysfawr a thrylwyr yn cael ei gynnal o'r Polisi Dyrannu Cyffredin presennol.

2.7 Roedd y Grŵp yn cydnabod bod y Polisi Dyrannu Cyffredin yn cael ei weithredu gan y Cyngor a'i Bartneriaid Tai Cymdeithasol ac roedd eu mewnbwn a'u cefnogaeth ar gyfer cyflwyno a gweithredu'r Polisi Dyrannu Dros Dro Brys yn hanfodol. Yn hynny o beth, cytunodd y dylai swyddogion gyfarfod â'r partneriaid hynny i gael eu barn/cymorth

## 3. Y Trydydd Cyfarfod - 21 Tachwedd 2022 - Polisi Dyrannu Tai Cymdeithasol Brys

3.1 Rhoddodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, ar ôl ystyried y 9 Cynnig Polisi a amlinellwyd yn Adran 2, sylw at ddatblygu Polisi Dyrannu Tai Cymdeithasol Brys Drafft yn ddogfen waith y gellid ei derbyn gan y partner Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig fel trefniant dros dro, hyd nes y bydd adolygiad llawn o'r Polisi Dyrannu Cyffredin cyfredol yn cael ei gynnal yn ystod 2023 i'w gyflwyno yn 2024

3.2 Datblygwyd y Polisi Dyrannu Tai Cymdeithasol Brys (ynghlwm fel Atodiad) mewn cydweithrediad â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig y Cyngor a'i gyflwyno i staff rheng flaen ac mae'n mynd i'r afael â'r prif feini prawf polisi canlynol: -

- Cymhwysedd
- Ymgeisio ac Asesu
- Proses Ddyrannu
- Cynnig Llety
- Trefniadau Llywodraethu

3.3 Os yw'r Polisi Dyrannu Brys Drafft yn cael ei dderbyn, nododd y Grŵp y byddai angen atal y Polisi Dyrannu Cyffredin presennol, a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn 2016, er mwyn galluogi'r Cyngor, a'i bartneriaid, i ddefnyddio'r adnoddau tai prin i ddiwallu anghenion ei drigolion bregus a'r rhai sydd â'r angen mwyaf am dai.

3.4 Nododd y Grŵp mai amcanion y Polisi Dyrannu Brys fydd nodi'n glir y trefniadau ar gyfer sut y bydd tai cymdeithasol yn Sir Gaerfyrddin yn cael eu dyrannu yn ystod atal y Polisi Dyrannu Cyffredin mewn modd teg a thryloyw

3.5 Mae'r Polisi Brys Drafft yn nodi sut y bydd pobl gymwys yn cael eu dewis ar gyfer cartrefi mewn ardal yr oeddent am gael eu cartrefu ynddi a lle nad yw hyn yn bosibl, byddant yn cael cynnig cartref addas sy'n diwallu eu hanghenion

3.6 Mae'r Grŵp yn cydnabod barn ei Bartneriaid Tai Cymdeithasol wrth ddatblygu'r Polisi Dyrannu Brys h.y.: -

- Cymdeithas Tai Bro Myrddin
- Cymdeithas Tai Caredig
- Cymdeithas Tai Pobl

- Cymdeithas Tai Wales and West

3.7 Bydd y Polisi, os caiff ei fabwysiadu, yn nodi pwy sy'n gymwys ar gyfer dyraniad brys o dai cymdeithasol, beth fydd yn cael ei ystyried wrth benderfynu, sut y gwneir dyraniad a chynnig rhesymol o denantiaeth ynghyd â Hawl i ofyn am adolygiad.

3.8 Mae'r Grŵp yn cydnabod y bydd y Polisi Dyrannu Brys yn bodloni cyfrifoldebau cyfreithiol y Cyngor a'i fod wedi'i ddatblygu yn unol â Deddf Tai 1996 (Rhan 6), Deddf Tai (Cymru) 2014, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r Côd Canllawiau ar gyfer Awdurdodau Lleol: Dyrannu Llety ac Atal Digartrefedd (Llywodraeth Cymru 2016)


## 4. Y Pedwerydd Cyfarfod - 6 Rhagfyr 2022

4.1 Cafodd y Grŵp gyflwyniad ynghylch effaith paru uniongyrchol trwy amgylchiadau eithriadol ers dechrau mis Hydref. Roedd y data'n cynnwys nifer yr achosion o baru uniongyrchol o'i gymharu â nifer yr eiddo a hysbysebwyd yn ôl maint/math o eiddo a landlord, a nifer yr achosion o baru fesul Band. Roedd hefyd yn dangos nifer yr achosion o baru aflwyddiannus a'r rhesymau dros hyn.

4.2 Rhwng yr wythnos yn diweddu 7 Hydref 2022 a'r wythnos yn diweddu 2 Rhagfyr 2022, cafodd 146 o bobl ym Mand A eu paru'n uniongyrchol ag eiddo oedd ar gael o dan amgylchiadau eithriadol a gymeradwywyd gan y Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd.

4.3 Yn ystod yr un cyfnod hysbysebwyd 96 eiddo ar Canfod Cartref ac roeddent ar gael i ymgeiswyr cymwys wneud cais amdanynt. Mae hyn yn 39% o'r eiddo sydd ar gael yn ystod y cyfnod hwnnw.

| Landlord | Paru Uniongyrchol | Yr Eiddo a Hysbysebwyd |
|---|---|---|
| **Cyngor Sir Caerfyrddin** | 101 | 56 |
| **Bro Myrddin** | 23 | 19 |
| **Caredig** | 15 | 3 |
| **Pobl** | 9 | 17 |
| **Wales and West** | 0 | 1 |
| **Gosod Syml** | 1 | 0 |
| **Cyfanswm** | **149** | **96** |




4.4 Cytunodd y grŵp y dylid defnyddio data tebyg i'r hyn sydd yn y cyflwyniad i fonitro effeithiolrwydd y polisi yn ystod y cyfnod dros dro. Byddai'r wybodaeth fonitro'n cael ei hadrodd i'r Pwyllgor Craffu yn rheolaidd.

4.5 Atgoffwyd y Grŵp, yn ei gyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 21 Tachwedd, 2022, ei fod wedi ystyried Polisi Dyrannu Tai Cymdeithasol Dros Dro Drafft ac ar ôl cynnig nifer o welliannau yn hynny o beth cytunwyd y bydd fersiwn ddiwygiedig, sy'n ymgorffori unrhyw welliannau a awgrymir gan y Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn cael eu cyflwyno i'w gyfarfod nesaf. Yn unol â'r cais hwnnw, derbyniodd y Grŵp y ddogfen Bolisi, yn amodol ar rai newidiadau pellach i'w cyflwyno i'w gyfarfod ym mis Ionawr 2023 i'w gymeradwyo'n derfynol wrth ddisgwyl ei gyflwyno drwy'r broses ddemocrataidd i'w mabwysiadu gan y Cyngor fel dogfen Polisi Brys a'i fod yn weithredol tan y mabwysiadwyd adolygiad ffurfiol o'r Polisi Dyrannu Cyffredin

## 5. Y Pumed Cyfarfod - 10 Ionawr 2023

Derbyniodd a chymeradwyodd y Grŵp y Polisi Dyrannu Tai Cymdeithasol Dros Dro Drafft Terfynol ynghyd ag adroddiad o'i ganfyddiadau i'w cyflwyno drwy'r broses ddemocrataidd.

Fel rhan o'i ystyriaeth o'r adroddiad terfynol, derbyniodd y Grŵp gyngor Cwnsler ar ddarpariaethau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2022 newydd a ddaeth i rym ym mis Rhagfyr 2022 a'r effaith y byddai hynny'n ei chael ar Adran 2 – Meini Prawf Cymhwysedd ac Adran 3 - Y Broses Ymgeisio ac Asesu o fewn y polisi drafft. Roedd y cyngor hwnnw'n ymwneud â sefydlu band 'Dim Ffafriaeth' ar wahân yn y Gofrestr Tai lle na fyddai unrhyw ffafriaeth yn cael ei rhoi i ymgeiswyr am dai cymdeithasol sydd:

- Â'r adnoddau ariannol i dalu eu costau tai eu hunain;
- Yn arddangos ymddygiad sy'n effeithio ar eu haddasrwydd i fod yn denant nad yw'n benderfyniad anghymwys ar gyfer y gofrestr;
- Heb gysylltiad lleol â Sir Gaerfyrddin, oni chawsant eu heithrio o'r meini prawf ar gyfer Cysylltiad Lleol fel y'u nodir yn Atodiad Tri i'r polisi.

Derbyniwyd cyngor y Cwnseler a diwygiwyd y polisi drafft i adlewyrchu'r cyngor hwnnw.

**6. Casgliadau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen**

6.1.1 Cymeradwyodd y Grŵp, ar ôl archwilio gweithrediad y Polisi Dyrannu Cyffredin presennol a rhwymedigaethau cyfreithiol y Cyngor i ddarparu llety i bobl sy'n cyflwyno eu hunain yn ddigartref, yr angen i gyflwyno'r Polisi Dyrannu Brys trwy Baru Uniongyrchol i alluogi'r Cyngor i ddyrannu eiddo yn unol â hynny yn erbyn y meini prawf, i'r rhai sy'n cyflwyno eu hunain yn ddigartref ac mewn mwy o angen am dai,

6.1.2 Mae'r Grŵp yn nodi, er bod paru pobl yn uniongyrchol â'r eiddo sydd ar gael yn cael ei gynnig os nad yw'n bosibl dyrannu'r holl eiddo sydd ar gael ar unrhyw adeg, byddai'r eiddo sydd heb ei ddyrannu ar gael trwy Canfod Cartref i bobl wneud cais amdanynt, fel y mae'r sefyllfa ar hyn o bryd.

6.1.3 Mae'r Grŵp hefyd yn nodi bod y Polisi Dyrannu Brys i weithredu am oddeutu blwyddyn er mwyn caniatáu cynnal adolygiad llawn o'r Polisi Dyrannu Cyffredin presennol a'i fabwysiadu wedi hynny gan y Cyngor.

**7. YR ARGYMHELLION**

7.1 Argymell bod y Cyngor yn cymeradwyo'r Polisi Dyrannu Tai Dros Dro Brys

7.2 Argymell bod y Cyngor yn cymeradwyo bod y Polisi Gosodiadau ar sail Dewis presennol yn cael ei atal am tua blwyddyn, a bod y Polisi Dyrannu Tai Cymdeithasol Dros Dro Brys yn cael ei weithredu

7.3 Argymell bod y Pwyllgor Craffu yn cael y wybodaeth ddiweddaraf ym mhob cyfarfod gan swyddogion ynghylch effeithiolrwydd y newid

7.3.1 Argymell bod cynnwys yr adroddiadau diweddaru yn cynnwys data ynghylch y cyfnod blaenorol sy'n cyfeirio at:

- Cyfran yr eiddo a barwyd yn uniongyrchol a'r rhai a hysbysebwyd

- Bandiau'r cleientiaid a barwyd yn uniongyrchol
- Nifer yr eiddo a barwyd yn uniongyrchol ac a hysbysebwyd gan bob ardal cysylltiad cymunedol, math o eiddo a landlord
- Cyfran yr achosion o baru uniongyrchol a oedd yn llwyddiannus
- Nifer yr achosion o baru uniongyrchol lle mae'r cleient yn gofyn am adolygiad o'r dyraniad, a chanlyniad yr adolygiadau hynny
- Nifer yr achosion o baru uniongyrchol lle mae'r cleient yn gwrthod y dyraniad ond nid yw'n gofyn am adolygiad